| | | Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor bwysig oedd crefydd wrth ymateb i'r Pla Du. | to Explain Pandemics Through History<br>• Priests and the Black Death<br>• Religious Responses to the Black Death<br><br>**Fideo(s):**<br>• Medieval Medicine: Medicine Through Time<br>• The Black Death & How It Ravaged Europe<br>• How did the Black Death affect Africa and Asia?<br>• Weird Plague 'Cures'<br>• How Did Bubonic Plague Actually End?<br>• How did people try to 'cure' the Plague?<br>• A Day In the Life Living With the Plague<br><br>**Podlediad(au):**<br>• How to Survive the Plague - Not Just the Tudors<br>• The Black Death - In Our Time<br><br>**Llyfr(au):** | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *A Distant Mirror – the Calamitous 14$^{th}$ Century* gan Barbara Tuchman, pennod 5<br><br>*Newidiadau ym Maes Iechyd a Meddygaeth tua 1340 hyd heddiw* gan R. Paul Evans ac Alf Wilkinson, penodau 1 a 2<br><br>*The Black Death* gan Philip Ziegler, pennod 5<br><br>*Doctoring the Black Death* by John Abert, pennod 3<br><br>*The Black Death – A New History* gan John Aberth, penodau 3, 5 a 7 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.2.4 Ymatebion i ledaeniad clefydau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • ymateb unigolion i'r Pla Du, gan gynnwys:<br>  • y sioc, galar ac euogrwydd yn sgil ei effaith<br>  • yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n ceisio symud ymlaen o brofedigaeth. | Yr ymatebion emosiynol i brofedigaeth oherwydd y Pla Du.<br><br>Sut aeth yr awdurdodau i'r afael â niferoedd mawr o gyrff marw.<br><br>Ymatebion diwylliannol i'r Pla Du fel y ddelwedd o'r danse macabre. | **Gweithgareddau:**<br>• ymchwiliwch i'r modd yr aeth yr awdurdodau i'r afael â niferoedd mawr o gyrff marw<br>• amlinellwch sut effeithiodd y Pla Du ar arferion angladdau cymunedau<br>• ymchwiliwch i'r hyn mae tystiolaeth o'r adeg yn ei ddweud wrthym am sut ymatebodd pobl yn emosiynol i'r Pla Du<br>• ymchwiliwch i ymatebion diwylliannol fel y danse macabre a motiff marwolaeth mewn celf a llenyddiaeth o'r oesoedd canol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith emosiynol y Pla Du.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad *In Our Time* ar y Pla Du a gwnewch nodiadau ynghylch y ffordd mae'n disgrifio ymatebion pobl i'r Pla Du. | **Gwefan(nau):**<br>• Social and Economic Effects of the Plague<br>• 'The blow struck the world with immense terror': Accessing emotional reactions to the Black Death of 1348<br>• Danse Macabre: Dealing With Death in the 14th Century<br>• Art and Death in the Middle Ages<br>• Death Transformed: How the Black Death Impacted the Dying in the 14th Century<br>• Death and Commemoration in Late Medieval Wales<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Black Death & How It Ravaged Europe<br>• What Made The Black Death so Deadly?<br>• What It Was Like to Be a Body Collector During the Black Plague | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch yr amrywiaeth o ffyrdd yr ymatebodd pobl i'r Pla Du. | **Podlediad(au):**<br>• Black Death - In Our Time<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A Distant Mirror* – *the Calamitous 14th Century* gan Barbara Tuchman, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • ymateb cymdeithasau i'r Pla Du, gan gynnwys:<br>• ymdrechion i resymoli a dod o hyd i fychod dihangol<br>• gwrthwynebiad grwpiau elitaidd i ddeddfwriaeth a rheolaeth. | Cynnydd yn yr erledigaeth o gymunedau Iddewig yn Ewrop fel ymateb i'r Pla Du.<br><br>Sut ceisiodd yr elitau osgoi cyfyngiadau'r pla, gan gynnwys gadael trefi a mynd i'w heiddo gwledig.<br><br>Ymatebion gwahanol ymysg cymunedau Cristnogol a Mwslimaidd i'r Pla Du. | **Gweithgareddau:**<br>• ymchwiliwch i'r cynnydd yn yr erledigaeth o leiafrifoedd crefyddol fel yr Iddewon fel ymateb i'r Pla Du<br>• disgrifiwch sut ceisiodd yr elitau osgoi cyfyngiadau'r pla a beth oedd canlyniad hyn<br>• ymchwiliwch i'r nodweddion tebyg a gwahanol rhwng y ffordd yr ymatebodd cymunedau Cristnogol a Mwslimaidd i'r Pla Du.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall bod amrywiaeth eang o ymatebion i'r Pla Du.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad am Siwan o Loegr a defnyddiwch y stori i esbonio beth mae'n ei ddweud wrthym am sut ymatebodd yr elitau yn Ewrop, gan gynnwys Brenin Lloegr, i'r Pla Du.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch beth mae stori Siwan o Loegr yn ei ddweud wrthym am ymatebion yr elitau i'r Pla Du. | **Gwefan(nau):**<br>• The Black Death in Asia, Europe and Africa<br>• Persecution of Jews during the Black Death<br>• The Black Death - Historic UK<br>• When Jews Were Blamed for the Black Death<br>• Why Were Jews Blamed for the Black Death?<br>• Pandemics and the persecution of minorities: Evidence from the Black Death<br>• Blame and Persecution - History in Numbers<br>• Black-Death social toxins<br>• Masque of the Black Death: How Europe's Rulers Resisted the Plague in Vain<br>• How the Black Death made the rich richer<br>• Black Death: Political and Social Changes<br>• The Comparative Communal Responses to the Black Death in Muslim and Christian Societies | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Fideo(s):**<br>• The Black Death & How It Ravaged Europe<br>• What Happened After the Black Death Ended<br>• The Black Death and Jewish Persecution<br>• 9th January 1349: Jews massacred in Basel during the Black Death<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Black Death - In Our Time<br>• The Black Death: The Deadliest Plague - After Dark<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A Distant Mirror – the Calamitous 14th Century* gan Barbara Tuchman, pennod 5<br><br>*The Black Death* gan Philip Ziegler, pennod 5<br><br>*Doctoring the Black Death* by John Abert, pennod 4<br><br>*The Black Death – A New History* gan John Aberth, pennod 8 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 2.2.5 Gwaddol y Pla Du | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • pwysigrwydd cost gymdeithasol y Pla Du, gan gynnwys:<br>  • amcangyfrifon o gyfraddau marwolaethau<br>  • effaith marwolaeth a chlefydau ar deuluoedd, cymunedau a chredoau. | Amcangyfrifon o nifer y marwolaethau oherwydd y Pla Du.<br><br>Rhesymau dros ddiffyg sicrwydd ynghylch nifer y marwolaethau oherwydd y Pla Du.<br><br>Y ffaith bod canrifoedd wedi mynd heibio cyn i lefelau poblogaeth trefi a phentrefi ddychwelyd i'r lefelau cyn y Pla Du.<br><br>Sut cafodd cymunedau eu newid gan y Pla Du.<br><br>Sut newidiodd y Pla Du rôl yr Eglwys a chrefydd. | **Gweithgareddau:**<br>• amlinellwch yr amrediad o amcangyfrifon o nifer y marwolaethau oherwydd y Pla Du<br>• esboniwch y rhesymau dros yr amrediad hwn a pham ei bod yn bosibl na fyddwn byth yn gwybod beth oedd nifer gwirioneddol y marwolaethau<br>• disgrifiwch sut cafodd cymunedau eu newid gan y Pla Du<br>• ymchwiliwch i effaith y Pla Du ar gredoau ac arferion crefyddol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall cost y Pla Du i gymdeithas Ewropeaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad am adferiad Ewrop o'r Pla Du a gwnewch nodiadau ar sut gwnaeth y goroeswyr ddelio â'r heriau a adawodd y Pla Du ar ei ôl. | **Gwefan(nau):**<br>• The Black Death in Asia, Europe and Africa<br>• The Black Death: The Plague, 1331-1770<br>• Pandemics and the persecution of minorities: Evidence from the Black Death<br>• The Comparative Communal Responses to the Black Death in Muslim and Christian Societies<br>• Black Death - History in Numbers<br>• Estimates of the Black Death's death toll in selected European cities from 1347 to 1351<br>• Black Death mortality not as widespread as long thought<br>• Religious Responses to the Black Death<br>• How Did the Church Fare During the Black Death and 400 Years of the Plague? | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am anawsterau gwella o'r Pla Du. | • Effects and significance - Britannica<br>• Consequences of the Black Death: Social, environmental, and economic effects<br>• The Black Death and Its Impact on the Church and Popular Religion<br>• Social and Economic Effects of the Plague<br>• Effects of the Black Death on Europe<br>• Children during the Black Death<br>• Muslim Responses To The 14th Century Black Death<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Black Death & How It Ravaged Europe<br>• Economic History: The Black Plague<br><br>**Podlediad(au):**<br>• Recovery part one: Black Death - Know Your Place<br><br>**Llyfr(au):**<br>*A Distant Mirror – the Calamitous 14th Century* gan Barbara Tuchman, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *The World Transformed* gan Peter Frankopan, pennod 13<br><br>*Plagues Upon The Earth – Disease and the Course of Human History* gan Kyle Harper, pennod 6<br><br>*The Black Death 1346-1353 – A Complete History* gan Ole J. Benedictow, rhan 3<br><br>*The Black Death – Natural and Human Disaster in Medieval Europe* gan Robert S. Gottfried, pennod 5<br><br>*The Black Death* gan Philip Ziegler, pennod 14<br><br>*The Black Death – A New History* gan John Aberth, penodau 2 a 9 | |
| • cost ehangach y Pla Du, gan gynnwys:<br>• ei effaith economaidd<br>• ei effaith wleidyddol. | Effaith economaidd tymor byr y Pla Du – chwyddiant o ganlyniad i ostyngiad mewn lefelau cynhyrchu oherwydd y lleihad yn y boblogaeth.<br><br>Effaith economaidd tymor hirach y Pla Du – cynnydd mewn cyflogau o | **Gweithgareddau:**<br>• esboniwch pam mai chwyddiant mewn prisiau oedd effaith economaidd uniongyrchol y Pla Du<br>• amlinellwch yr effaith economaidd tymor hirach wrth i weithwyr roi pwysau ar gyflogwyr a landlordiaid i gael mwy o ryddid a chyflogau uwch | **Gwefan(nau):**<br>• Consequences of the Black Death - Wikipedia<br>• The Black Death in Asia, Europe and Africa<br>• Medieval treatments for the plague<br>• Effects of the Black Death on Europe | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ganlyniad i gynnydd yn y galw am weithwyr.<br><br>Y system ffiwdal yn gwanhau ac yn cwympo yn y pen draw, gan gynnwys gwrthdaro rhwng yr elitau a'r gweithwyr dros gyflog ac amodau.<br><br>Y wladwriaeth yn canoli'n gynyddol a llai o bŵer i'r uchelwyr, er enghraifft yn Ffrainc a Lloegr.<br><br>Amharu ar ymladd yn y Rhyfel Can Mlynedd rhwng Lloegr a Ffrainc. | • esboniwch yr effaith a gafodd y Pla Du ar bŵer yr elitau, yn enwedig mewn perthynas â'r system ffiwdal, ond hefyd yn y ffaith bod gwladwriaethau Ewropeaidd yn cael eu canoli'n gynyddol<br>• disgrifiwch effaith y Pla Du ar yr ymladd rhwng Lloegr a Ffrainc yn y Rhyfel Can Mlynedd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ehangach y Pla Du.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• trafodwch sut dylid cofio'r Pla Du yn Ewrop<br>• dyluniwch ac anodwch gofeb i'r rhai a fu farw o'r Pla Du.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch sut dylid cofio'r Pla Du. | • How the Black Death Improved the Lives of Medieval Peasants<br>• The Black Death - Historic UK<br>• How the Black Death made life better<br>• Black Death: Political and Social Changes<br>• How did the Black Death affect government institutions and their functions?<br>• The Black Death and the Hundred Years' War<br><br>**Fideo(s):**<br>• The Black Death's Impact on Medieval Europe<br>• The Impact of the Black Death on Medieval Europe<br>• The Impact of the Black Death on Europe<br>• What Happened After the Black Death Ended<br>• Ten Minute English and British History<br><br>**Podlediad(au):**<br>• The Black Death - Dan Snow's History Hit<br>• Black Death - Know Your Place | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>*A Distant Mirror – the Calamitous 14$^{th}$ Century* gan Barbara Tuchman, pennod 5<br><br>*The World Transformed* gan Peter Frankopan, pennod 13<br><br>*Plagues Upon The Earth – Disease and the Course of Human History* gan Kyle Harper, pennod 6<br><br>*The Black Death – Natural and Human Disaster in Medieval Europe* gan Robert S. Gottfried, penodau 5, 6 a 7<br><br>*The Black Death* gan Philip Ziegler, penodau 15-17<br><br>*The Black Death – A New History* gan John Aberth, pennod 10<br><br>*The World The Plague Made,* gan James Belich, penodau 7 a 8 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gallai dysgwyr ymweld â safleoedd yn y DU sy'n gysylltiedig â'r Pla Du fel Cosmeston, De Cymru a Wharram Percy, Swydd Efrog. Mae teithiau i'w cael ar thema'r Pla Du yn Llundain hefyd. Mae teithiau rhithiol i'w cael hefyd o rai o'r dinasoedd Ewropeaidd yr effeithiodd y Pla Du arnynt yn yr oesoedd canol fel Paris a Firenze (Fflorens). |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Bydd dysgwyr yn astudio sut gwnaeth pobl yn Ewrop droi at grefydd i esbonio'r Pla Du ac i amddiffyn eu hunain rhagddo. Er bod trawma'r pandemig wedi dod â rhai pobl yn agosach at ei gilydd, aeth rhai yn fwy ynysig. Roedd y gymuned Iddewig mewn nifer o ddinasoedd ledled Ewrop yn cael ei defnydd fel bwch dihangol, hyd yn oed mewn llefydd nad oedd y pla wedi'u cyrraedd eto. Roedd gan gymunedau Mwslimaidd ymagwedd fwy ymarferol o lawer at y Pla Du na Christnogion a oedd yn dueddol o'i ystyried mewn ffordd fwy crefyddol. |
| gweithio ar y cyd | Mae llawer o enghreifftiau o drafodaethau, fel:<br>• barn bosibl rhywun o bandemig y pla ar y pryd, yn hytrach na'r farn y byddai gennym o bandemig nawr<br>• a oedd effaith y Pla Du yn waeth mewn trefi neu yng nghefn gwlad<br>• pa mor bwysig oedd crefydd yn ymdrechion pobl i osgoi'r Pla Du<br>• sut dylid cofio'r Pla Du yn Ewrop.<br><br>Mae cyfleoedd i ddadlau hefyd, fel:<br>• sut dylid cofio llwybrau masnach ar draws cyfandiroedd – gydag un ochr yn dadlau ynghylch y buddiannau economaidd, a'r ochr arall yn dadlau ynghylch effaith lledaeniad y clefyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Bydd dysgwyr yn deall bod y Pla Du yn cysylltu pentrefi yn y 14eg ganrif yng Nghymru â threfi a phentrefi ledled gweddill Ynysoedd Prydain, Ewrop, o amgylch rhanbarth Môr y Canoldir a Dwyrain Agos Asia wrth i ledaeniad cyflym ac effaith y clefyd hwn ei wneud yn bandemig ar draws cyfandiroedd. |
| Cynaliadwyedd | Caiff dysgwyr eu cyflwyno i syniadau diweddar, y mae gwaith ymchwil yn dal i ddigwydd arnynt, y gall lledaeniad y Pla Du fod wedi dylanwadu ar y newid yn yr hinsawdd.<br><br>Yn 2.2.1, bydd dysgwyr yn archwilio sut gall y newid yn yr hinsawdd fod wedi dylanwadu ar ymfudiad a chynnydd yn y boblogaeth o gnofilod yn Asia ac Ewrop, gan ei gwneud yn haws i'r chwain sy'n cario'r Pla Du i ledaenu yn bellach, yn gyflymach ac yn fwy niferus. Gall diffyg bwyd sy'n deillio o ddiwedd Cyfnod Cynnes yr Oesoedd Canol hefyd fod wedi arwain at ddiffyg maeth gan wneud y rhai a oedd yn agos at newynu yn fwy tebygol o gael y clefyd. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Bydd dysgwyr yn gweld bod effaith y Pla Du wedi arwain at wrthdaro rhwng yr uchelwyr a oedd yn berchen ar dir a'r werin a oedd yn gorfod gweithio ar eu tir wrth i'r system ffiwdal gwympo. Gwelwyd cynnydd mewn trais wrth-Semitig hefyd o ganlyniad i'r Pla Du. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Bydd dysgwyr yn deall bod y Pla Du wedi lledaenu'n ddaearyddol, gan anwybyddu ffiniau gwleidyddol Ymerodraethau'r Mongoliaid ac Ottoman, wedi teithio drwy Ymerodraeth Mamluk yn y Dwyrain Agos i Ogledd Affrica, ond yna hefyd ar draws dinas-wladwriaethau, ymerodraethau a theyrnasoedd Ewrop.<br><br>Anwybyddodd effaith y Pla Du natur a ffiniau endidau gwleidyddol yn yr ardaloedd yr effeithiodd y Pla Du arnynt. Arweiniodd y Pla Du at ddiwedd ffiwdaliaeth yn Ewrop ac roedd hefyd yn elfen bwysig yn rhoi diwedd ar bŵer Ymerodraeth y Mongoliaid hefyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd economaidd masnachwyr y Llwybr Sidan a llwybrau Môr y Canoldir yn y cyfnod hwn, er nad ydynt yn bwysig yn y byd modern mwyach. Byddant hefyd yn gweld bod y proffesiwn meddygol yn llai proffesiynol o lawer, a'i fod yn llawer llai seiliedig ar wyddoniaeth yng nghyfnod yr oesoedd canol.<br><br>Bydd dysgwyr hefyd yn deall bod yr offeiriaid a oedd yn gweithio i'r Eglwys yn Ewrop yn bwysicach o lawer yn yr oesoedd canol nag y maen nhw heddiw. Drwyddyn nhw y daeth Cristnogion Ewrop i ystyried y Pla Du fel ffenomen grefyddol yn hytrach na naturiol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad maen nhw'n ei roi o ddigwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Byddant yn cael cyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| | |
| Cynhyrchu | Bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol a byddant yn meithrin sgiliau digidol wrth greu asesiadau di-arholiad mewn fformat digidol. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| | • Cwblhau'r asesiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Sgiliau Cyfannol | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geirfa ar gyfer Opsiwn 2.2

### Yr Oesoedd Canol: Y Pla Du tua 1330–tua 1360: astudiaeth achos ar gymdeithas yr oesoedd canol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Bwch dihangol | Pobl sy'n cael eu beio'n annheg am broblemau sy'n effeithio ar bobl eraill. |
| Cwarantin | Ynysu pobl y gallent fod wedi'u heintio am gyfnod – 40 o ddiwrnodau yn wreiddiol. |
| Cyfraddau marwolaethau | Y gyfradd y bydd pobl mewn cymuned neu boblogaeth yn marw. |
| Cymunedau gwledig | Cymunedau yng nghefn gwlad. |
| Cymunedau trefol | Cymunedau mewn trefi a dinasoedd. |
| Damcaniaeth miasma | Y gred bod clefyd yn cael ei ledaenu drwy arogleuon drwg yn yr aer. |
| Danse macabre | Y ddelwedd o sgerbydau yn dawnsio yn mynd â phobl fyw i'w marwolaeth. |
| Endemig | Clefyd sy'n dychwelyd i heintio pobl dro ar ôl tro. |
| Epidemig | Achosion o glefyd sy'n lledaenu'n gyflym mewn cymuned. |
| Epidemioleg | Yr astudiaeth o sut mae clefydau yn lledaenu ymysg pobl. |
| Erledigaeth | Trin person neu grŵp o bobl yn wael yn fwriadol. |
| Fflangellu | Chwipio eich hun fel penyd fel na fyddai Duw yn eich cosbi drwy roi clefyd i chi. |
| Grwpiau elitaidd | Pobl sydd â llawer o arian, statws cymdeithasol uchel a llawer o ddylanwad gwleidyddol. |
| Llwybr Sidan | Y llwybr masnach hynafol a oedd yn cysylltu cymunedau o China i ranbarth Môr y Canoldir. |
| Ofergoelus | Cred yn rôl hud yn y byd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Pandemig | Achosion o glefyd sy'n lledaenu dros ardal ddaearyddol eang. |
| Penyd | Gweithred grefyddol i ofyn i Dduw faddau i chi am rywbeth rydych chi wedi'i wneud o'i le. |
| Pla | Clefyd heintus iawn sy'n lledaenu'n gyflym ac sy'n arwain at nifer mawr o farwolaethau. |
| Pla niwmonig | Math o bla sy'n cael ei drosglwyddo drwy anadlu'r bacteriwm. |
| Pla septicaemig | Math o bla sy'n cael ei drosglwyddo drwy amlygiad i waed heintiedig. |
| Rhyngweithio diwylliannol | Cyfnewid syniadau rhwng cymunedau. |
| Rhyngweithio drwy fasnachu | Masnachu rhwng masnachwyr. |
| Y pla biwbonig | Math o bla y credwyd iddo gael ei basio i fodau dynol drwy frathiadau chwain a oedd wedi bwydo ar waed llygod mawr neu famaliaid bach eraill a heintiwyd. |
| Y Pla Du | Clefyd marwol a ddaeth i Ewrop yng nghanol y 14eg ganrif, a achoswyd gan y bacteria yersinia pestis. |
| Y Rhyfel Can Mlynedd | Y rhyfel rhwng teyrnasoedd Lloegr a Ffrainc i gael rheolaeth dros diriogaeth yng ngogledd Ffrainc a barodd rhwng 1337 a 1453. |
| Ymbellhau cymdeithasol | Cadw pobl ar wahân er mwyn arafu lledaeniad clefyd. |
| Ynysu | Torri pob cyswllt â phobl heintiedig. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025